

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG
GYNHALIWDYD 1 HYDREF 2020 AM 7.30YH**

1. Yn bresennol: Y Cyng Meinir James (Cadeirydd), Viv Davies, Janet Knott, Elfyn Williams, Shan Rees, Mair Stephens, Richard John, Rheinallt Jones, Philip Davies ac Arfon Davies (Clerc)

Ymddiheuriadau: Y Cyng Eifion Jones a Hugh Anderson.

2. Datganiadau Diddordeb

Dim datganiadau.

3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3ydd Medi 2020.

4. Materion yn Codi

1. Sedd wag am Aelod o'r Cyngor – Nododd y Clerc fod Mr. Hugh Anderson wedi cytuno i gael ei gyfethol i'r Cyngor. Nodwyd.

2. Difrod i'r palmant oherwydd datblygiad preswyl - Rose and Crown, Llandyfaelog – Roedd y mater yn parhau i derbyn ystyriaeth.

3. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 – Ni dderbyniwyd unrhyw gynnydd pellach gyda'r archwiliad o gynigion ar gyfer y gyffordd. Nododd aelodau fod llawer iawn o bryder wedi'i godi yn y Gymuned leol ynghylch y mater. Codwyd pryder mewn perthynas â pharcio bysiau yng nghysgodfa bysiau cyfeiriad Cydweli, roedd y mater hwn wedi'i nodi gan y cwmni bysiau ac nid oedd yn achosi problem mwyach.

Nodwyd hefyd bod yr heddlu wedi nodi na ellid monitro'r ardal oherwydd diffyg lle. Nodwyd mater y clawdd ar y gyffordd yn achosi diffyg gwelededd o gyfeiriad Cydweli ac roedd diffyg eglurder ynghylch perchnogaeth. Bydd y Cynghorydd Mair Stephens yn gwneud ymholiadau gyda'r Gofrestrfa Tir ar y mater.

Nodwyd y diffyg cynnydd gyda'r Cyngor Sir gyda siom fawr a bydd yn cael ei gynyddu yn y Cyngor Sir.

4. Prosiect uwchraddio goleuadau cyhoeddus LED – Nodwyd bod dyddiad yn cael ei aros i'r contractwr ddychwelyd a chwblhau'r gwaith gyda'r goleuadau oedd i'w gwneud. Nodwyd.

5. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded – Disgwylid cwblhau amnewid y golau panel solar yn Idole. Disgwylid adroddiad hefyd yn dilyn yr asesiad o'r goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin. Nodwyd.

6. Pryderon Diogelwch Priffyrdd ar y B4309 ym Mancycapel - Roedd y Cyngor yn aros am ymgynghoriad ar y gwelliannau marcio ffyrdd ac arwyddion arfaethedig yn y lleoliad hwn.

7. Presenoldeb tîm Monitro Cyflymder yr Heddlu yng nghyfarfod y Cyngor - Cadarnhaodd y Clerc y byddai Rhingyll Plismona Ffyrdd yr Heddlu a Dadansoddydd Data yn mynychu cyfarfod mis Tachwedd. Nodwyd.

8. Bin sbwriel ar gyfer lloches bws cyfeiriad Cydweli yn Llandyfaelog – Nodwyd bod y bin wedi'i ddarparu.

- 9. Goleuadau Cyhoeddus yng Nghyffordd Llandyfaelog** – Cadarnhaodd y Clerc ei fod yn disgwyl dyddiadau ar gyfer ymweliad safle. Nodwyd.
- 10. Cadwch Gymru'n Daclus - Pecyn Cychwyn Lleodd Lleol ar gyfer Natur** – Nododd y Clerc fod yr Ardd Bioamrywiaeth wedi'i gosod ar Gae Idole. Nodwyd.
- 11. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth** – Cadarnhaodd y Clerc nad oedd y Cyngor Sir wedi gallu gwneud unrhyw gynnydd ar y mater hwn eto. Nodwyd.
- 12. Adroddiad Blynnyddol 2019-20** – Cadarnhaodd y Clerc fod yr Archwilydd bellach yn adolygu'r Ffurflen Flynyddol. Gan nad oedd yr Archwiliad wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi, rhoddwyd hysbysiad o'r ffaith ar wefan y Cyngor.
- 13. Bin Capel Penygraig** – Cadarnhaodd y Clerc nad oedd y bin wedi'i newid eto. Nodwyd.
- 14. COVID-19** – Trafododd aelodau'r achosion parhaus o COVID-19 a'r effaith ar y Gymuned. Trafodwyd yr angen i breswylwyr aros yn wylidwrus o fygythiad y feirws.
- 15. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd** – Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.
- 16. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed** – Ymddiheurodd y Cyngor Sir nad oeddent wedi gallu symud y mater ymlaen hyd yma. Nodwyd.
- 17. Map Llwybrau Troed** – Byddai'r Clerc yn derbyn fersiwn electronig o'r map llwybr troed a byddai wedyn yn medru ei ddarparu i aelodau.
- 18. Sticeri bin sbwriel** – Roedd y Clerc wedi derbyn sticeri ond nad oeddent yn briodol ar gyfer y biniau lleol yn ardal Gymunedol Llandyfaelog, bydd y Clerc yn codi'r mater ymhellach gyda'r Cynghorydd Philip Hughes, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am y mater.
- 19. Arwyddion baw cŵn** – Roedd y Clerc wedi darparu arwyddion lleol yn ardal Idole.
- 20. Bin ar gyfer Ardal Mainc Cwmale** - Nodwyd bod y bin wedi'i ddarparu.
- 21. Uchafswm Cyflymder Cwmale** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad gan y Cyngor Sir mewn perthynas ag ymestyn yr ardal oedd yn cael ei gynnwys gan y terfyn cyflymder 30mya yn Cwmale i ddiwedd y pentref.
- 22. Ymgynghoriad gan BT ar gael gwared â chiosgau ffôn** - Cadarnhaodd y Clerc fod ymateb y Cyngor Sir ar y cynnig i gael gwared ar giosgau Idole a Cwmffrwd wedi cefnogi gwrthwynebiad y Cyngor i'r symudiadau. Nodwyd.
- 23. Cynnig i adleoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog** - Disgwylid am ddatblygiadau pellach gyda'r cynnig.
- 24. Monitro cyflymder gan yr Heddlu yn Idole** - Derbyniwyd cadarnhad byddai'r heddlu'n darparu'r wybodaeth am gerbydau a nodwyd yn teithio dros yr uchafswm cyflymder i'r Swyddfa Docynnau Canolog a allai gynnig cwrs ymwybyddiaeth cyflymder neu codi docyn goryrru fel y teimlent yn briodol.
- 25. Mater gorfodi cynllunio yn Nantygoetre Isaf, Glanyfferi** - Nodwyd bod y mater yn gwaethygu wrth i glêr gael eu hadrodd a'r posibilrwydd bod y morlyn slyri wedi dechrau cael ei ddefnyddio. Parhaodd y Cyngor Sir i aros am gais cynllunio. Nodwyd.
- 26. Cais am gymorth ariannol gan Ofal Cancr Marie Curie** - Derbyniwyd cadarnhad bod 9 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth yn ardal cod post SA17 ac 19 yn ardal cod post SA32. Nodwyd.

5. Gohebiaeth

- 1. Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda** – Cylchlythyr Medi. Nodwyd.

- 2. Bin Grit, Idole** – Roedd y Cyng Elfyn Williams wedi nodi fod y bin grit ar cyffordd Heol y Lan a Lon yr Ysgol yn cael ei orchuddio gan tyfiant y clawdd. Roedd y mater wedi'i adrodd i'r Cyngor Sir a oedd wedu torri'r tyfiant i nol. Nodwyd.
- 3. Un Llais Cymru** - Cylchlythyr Medi. Nodwyd.
- 4. Cyfoeth Naturiol Cymru** – Adnoddau i helpu taclo taflu sbwriel angyfreithlon yn y Cymuned. Nodwyd.
- 5. Prosiect Fory** – Gwybodaeth am y prosiect a sut yr oedd yn edrych ar ateb y cwestiwn sut y bydd Cymunedau yn newid o ganlyniad i'r Coronafeirws. Bydd y Clerc yn cylchredeg y manylion i aelodau.
- 6. Cyngor Sir Gaerfyrddin** – Nodiadau Natur Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.
- 7. Tân ag Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** – Cynllun Corfforaethol 2021-2026 drafft Awdurdod Tân ag Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Nodwyd.
- 8. Brynhawddgar, Llandyfaelog** – Codwyd pryder gan drigolion lleol mewn perthynas â chyflwr Brynhawddgar, Llandyfaelog, gyda llawer iawn o sbwriel ar ôl wrth y fynedfa nad oedd cwmni sgip wedi eu symud. Roedd y mater wedi'i godi gyda'r Cyngor Sir gyda chytundeb i glirio'r broblem 'un waith yn unig' gan nad oedd yn glir pwy oedd y cwmni sgip. Nodwyd.
- 9. Un Llais Cymru** – Digwyddiadau Hyfforddiant Hydref. Nodwyd.
- 10. Banc Barclays** – Datganiadau. Nodwyd.
- 11. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Adroddiad blynyddol drafft 2021-2022. Cytunwyd i aros am ddiweddariad ar y broses ar gyfer gwneud taliadau i aelodau cyn ymateb i'r ymgynghoriad.

6. Cae Idole ac Amwynderau Gymunedol

- 1.** Diweddarodd y Clerc aelodau ar yr atgyweiriadau i ffens allanol Cae Idole, roedd y postion wedi cael eu disodli gan y contractwr ac roedd nawr yn aros am ffens i gwblhau'r gwaith. Cytunwyd Cyngor godi'r taliad siec i David Rees Fencing yn y swm o £1,134.00 (£945.00 gyda TAW £189.00) yn barod ar gyfer cwblhad y gwaith.
- 2.** Nododd y Clerc fod y gyrrwr a achosodd y difrod wedi derbyn gwaharddiad gyrru o 36 mis ac wedi cael dirwy am iawndal dioddefwr a chostau llys ond ni ddyfarnwyd unrhyw iawndal i'r Cyngor. Nododd yr aelodau hyn gyda siom oherwydd y gormodedd bolisi yswiriant o £250.00. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau amdano a ellid gwneud hawliad sifil ac a oedd polisi yswiriant y Cyngor yn cynnwys yswiriant ar gyfer costau cyfreithiol.
- 3.** Darparodd y Clerc adroddiad o'r arolygiadau amwynder 6 misol, a nodwyd gwaith i'w wneud gan yr Atgyweiriwr.

7. Sul y Cofio

- 1.** Nododd y Clerc fod rheoliadau COVID19 ar hyn o bryd yn caniatáu digwyddiad Sul y Cofio o hyd at 30 o bobl tu allan. Cadarnhawyd ymhellach y gellid darparu Gwasanaeth Eglwys ar gyfer y digwyddiad hefyd.
- 2.** Roedd y Clerc wedi cysylltu â Changen Cydweli o'r Lleng Prydeinig Brenhinol a oedd ar gael ar gyfer digwyddiad.
- 3.** Byddai'r amseroedd a'r trefniadau yn cael eu cadarnhau yn ystod mis Hydref a bydd y Clerc yn edrych ar y niferoedd uchaf y gellir eu cynnal yng ngardd Tir Gof ar gyfer y seremoni o dan y canllawiau pellhau cymdeithasol.

8. Adroddiad Cyllid 2020-21

Cyflwynodd y Clerc adroddiad cyllideb chwarter 2 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21. Cynhaliodd y Cyngor y monitro chwarterol a derbyniwyd yr adroddiad.

9. Wefan hygyrch newydd y Cyngor

Cadarnhaodd y Clerc fod gwefan newydd y Cyngor bellach wedi'i lansio. Ystyriodd aelodau'r cynnwys a chytuno ar nifer fach o newidiadau ar gyfer y wefan. Bydd aelodau hefyd yn ystyried busnesau lleol a allai roi manylion i'r Clerc er mwyn eu cynnwys ar y wefan.

10. Gynhadledd Plismona Wledig

Darparodd y Cyngorydd Richard John adroddiad o'r Gynhadledd Plismona Wledig yr oedd wedi'i mynychu.

11. Cytundeb yr Atgyweiriwr

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi'i weithio ym mis Medi gyda chost o £420.00 yn cael ei gytuno. Hysbysodd y Clerc aelodau byddai'r Atgyweiriwr yn ceisio cyflawni'r gwaith angenrheidiol i'r 3 gwely grug ym Mancycapel, Cwmffrwd ac Idole o'i oriau misol arferol. Cytunwyd ar gyllideb o £75.00 y gwely neu gyfanswm o £225.00 ar gyfer unrhyw blanhigion ychwanegol yr oedd eu hangen pan fyddai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau.

Nododd aelodau eu pleser gydag ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Atgyweiriwr.

12. Ceisiadau Cynllunio

1. **PL/00066** – Adeiladu cartref - Plot 10, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS. Dim gwrthwynebiadau.

2. **PL/00301** – Adeiladu cartref tair ystafell wely gyda lle parcio / garej integredig - Plot 9, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DS. Dim gwrthwynebiadau.

13. Cyfrifon

a) Cytunwyd y taliadau canlynol:

1.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Medi ad-daliad a chostau	£631.80 £83.79	£18.00 £12.20 £16.20	£761.98	£144.40	£0.00	£617.59

2. **CTEM** £393.20 Tyniadau Gorffennaf - Medi

3. **Vision ICT** £300.00 Costau wefan 2020-21 (£250.00 gyda TAW £50.00)

4. **David Rees Fencing** £1,134.00 Atgyweirio ffens cae Idole (£ 945.00 ynghyd â TAW) gweler eitem 6.1

5. **Michael Leefe** £420.00 Atgyweiriwr Medi (gweler eitem 11)

14. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Darparodd y Cyngorydd Janet Knott adroddiad o gyfarfod y Tîm Plismona Cymunedol yr oedd wedi'i fynychu. Cytunwyd i wahodd y swyddog heddlu lleol i fynychu'r sesiwn gyda'r swyddogion heddlu traffig yng nghyfarfod mis Tachwedd. **Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 5ed Tachwedd 2020.**